# Debra



# Cyflwyniad

Bydd y wers wythnos yma yn ffocysu ar Debora, un o'r barnwyr sydd a'i stori i'w gael yn Barnwyr 4:1-23. Roedd y barnwyr yn arweinwyr yn Israel rhwng adeg y concwest o Wlad yr Addewid a choroni eu brenin cyntaf. Rhai o'r prif bwyntiau byddwn yn archwilio yw:

- Dylwn ymddiried yn Nuw hyd yn oed os does neb arall yn gwneud hyn.
- Gall ein ffydd helpu eraill ymddiried yn Nuw.
- Mae Duw yn ein maddau pan rydym yn galw allan Iddo.

## Cynllun y wers

Atgoffwch y plentyn am Josua a sut arweiniodd ef Israel i'w gwlad newydd. Eglurwch fod y barnwyr wedi cymryd drosodd arwain Israel ar ôl i Josua farw.

Siaradwch am sut mae barnwyr yn bobl sy'n gweithredu'r gyfraith. Dewiswch 5 neu 6 degan medal neu geir tegan. Gwnewch lan ddeddf fel-rhaid i bob tedi wisgo rhuban (gwnewch yn siŵr bod o leiaf un o'r teganau yn torri'r ddeddf rydych wedi' ddewis) a dewiswch gosb bydd yr arth yn derbyn am dorri'r ddeddf (e.e. eistedd yn y gornel.) Trafodwch a helpwch y plentyn weithio allan pa degan(au) sy'n torri'r rheol. Eglurwch byddai'n rhaid i farnwr danfon yr arth i'r gornel fel cosb oherwydd ei swydd yw gweithredu'r gyfraith.

Siaradwch am reolau traffig fel stopio wrth arwydd stopio neu wrth golau coch. Eglurwch fod y rheolau yna i'n hamddiffyn ac os yw bobl yn eu torri, efallai bydd rhaid iddynt fynd i weld barnwr i gael eu cosbi.

Os yw eich plentyn yn ddigon hen, gallwch gysidro gêm ychwanegol i'w caniatáu i farnu rhwng problemau sydd fwy fel bywyd go iawn. Un esiampl byddai- dwy ferch fach yn cael doli pob un. Mae un yn dwyn doli'r llall, beth ydi eich plentyn yn meddwl byddai'n gosb addas? Gadewch i'r plentyn feddwl am hyn ar ei ben ei hun, ac wedyn trafodwch ei hateb. Edrychwch fyny ysgrythurau fel Effesiaid 4:28 i egluro beth mae Duw yn dweud am y gosb am ddwyn.

Siaradwch am sut oedd Barac yn ofnus i wneud beth oedd Duw wedi dweud wrtho am wneud. Pwyntiwch allan bod Debra wedi cytuno i'w helpu; a bod ei ffydd wedi helpu Barac ymddiried yn Nuw. Siaradwch am sut weithiau rydym angen cymorth rhywun arall i wneud rhywbeth. Pwyntiwch at losin sydd allan o gyrraedd y plentyn. Gofynnwch a ydy yn medru ei gyrraedd ar ben ei hun. Os yw'n gofyn i chi ei helpu, eglurwch mai gyda'ch gilydd byddwch yn medru cyrraedd y losin.

Siaradwch am fod yr Iddewon mewn trwbl oherwydd eu bod yn anufudd i Dduw, ond bod Duw yn maddau iddynt ac yn eu helpu pan roeddynt yn edifarhau. Dathlwch fod Duw yn ein maddau pan rydym yn gofyn Iddo.

Gweddïwch gyda'ch plentyn a gofynnwch i'r Iesu helpu chi eich dau i'w ddilyn ac i helpu eich gilydd i'w ufuddhau bob amser.

© 2023 truewaykids.com




Pan oedd y frwydr yn barod i ddechrau, dechreuodd fwrw glaw.

Glawiodd cymaint nes oedd y ddaear yn fwdlyd iawn, ac aeth y cerbydau rhyfel yn sownd yn y mwd.

Dechreuodd byddin Sisera redeg i ffwrdd. Cadwodd Duw Ei addewid ac achubodd Ei bobl.




Rhoddodd Duw le prydferth i blant Israel fyw, ond anghofiodd y bobl am Dduw a gwnaethon nhw bethau drwg.


Daeth hyn a nhw mewn trwbl.

Daeth y gelyn a chymryd drosodd eu gwlad a bod yn greulon iddynt. Enw pennaeth y gelyn oedd Sisera.




Roedd Debra yn caru Duw. Roedd hi mor ddoeth gwrandawodd pawb arni. Byddai Duw yn rhoi negeseuon arbennig iddi i ddweud wrth y bobl.

Un diwrnod, dywedodd Duw wrthi am alw Barac, pennaeth byddin Israel a dweud wrtho am fynd i frwydro yn erbyn Sisera oherwydd byddai Duw yn gadael iddo ennill.




Roedd Barac yn ofnus. Gwyddai bod y gelyn yn gryf iawn. Roedd ganddynt fyddin llawer mwy a 900 o gerbydau rhyfel.

Dywedodd Barac byddai dim ond yn mynd os fyddai Debra'n mynd hefyd.

Credodd Debra yn Nuw ac aeth i'r rhyfel gyda Sisera.

# Chwaraeon a Gweithgareddau

## CASGLU DAIL



Ewch am dro gyda'ch plentyn a chasglwch cymaint o wahanol fathau o ddail a gallwch ffeindio. Gallwch siarad am sut maent i gyd yn wahanol.

Os oes gennych amser ychwanegol, chwaraewch gemau dail. 1) ras i chwythu deilen ar draws y bwrdd. 2) chwaraewch tic-tac-to dail neu 3) gwnewch rwbiadau dail.



## MYND AM DRO MWDLYD

Heb ddim amheuaeth, bydd eich plentyn yn mwynhau mynd am dro mwdlyd yn fwy na chi. Gafaelwch yn eich welis ac ewch am dro yn y mwd. Mwynhewch neidio mewn pyllau mwdlyd gyda'ch gilydd.

Siaradwch am sut mae'n fwy anodd cerdded yn y mwd nag ar y llwybr. Eglurwch fel mae pethau'n mynd yn sownd yn y mwd.

## SOWND YN Y MWD

Mae hwn yn gêm glasurol, ond byddwch angen o leiaf 4 person i'w chwarae.

Mae un person yn 'tagio' a pan mae'n cyffwrdd person arall mae rhaid i'r chwaraewr yna stopio gyda'i freichiau allan (yn sownd yn y mwd).

Gall chwaraewr gwahanol ei rhyddhau trwy fynd rhwng ei goesau neu o dan ei freichiau.

Mae'r tagiwr yn ennill pan mae pob chwaraewr yn sownd yn y mwd.



© 2023 truewaykids.com

# Geiriau pwysig



Barnwr

Brenin






Coeden

© 2023 truewaykids.com

# Darnau o goeden

## Tynnwch linellau i labelu'r goeden



Cangen

Dail

Gwreiddiau

Boncyff

© 2023 truewaykids.com

# Amlinellwch a lliwiwch y dail palmwydd






© 2023 truewaykids.com


# Mwy neu Lai

Rhowch gylch o gwmpas yr ochr sy'n cael y mwyaf.



© 2023 truewaykids.com

# Dyluniwch darian



© 2023 truewaykids.com


# Crefft cerbyd rhyfel

## Pethau rydych angen:

- Templed
- Cerdyn gwyn
- Pensiliau lliw, creonau neu baent
- Tâp gludog
- Glud
- Siswrn
- 1 gwelltyn mawr ac 1 gwelltyn tenau (neu bren)
- 1 bren lolipop




## Beth i'w wneud:




Printiwch allan y templed ar gerdyn gwyn, lliwiwch a thorrwch.




Plygwch y fflapiau a gludwch i dapio ar y darn gwaelod.



Tapiwch y gwelltyn mwyaf o dan y gwaelod.



Gosodwch biniau ffasnydd trwy ganol pob olwyn.



Gosodwch y gwelltyn llai trwy'r gwelltyn mawr a glynwch olwyn wrth bob ochr gan ddefnyddio tâp.




Gosodwch bren lolipop trwy'r bwlch ar flaen y cerbyd. Gludwch yn ei le.

Os oes amser gennych gallwch ychwanegu geffyl tegan i'r cerbyd neu'r ceffyl papur sydd i'w gael ar y tudalennau canlynol.

© 2023 truewaykids.com

Printiwch ar gerdyn gwyn




© 2023 truewaykids.com

Printiwch ar gerdyn gwyn.


Torrwch rownd y ceffylau.

Gludwch gyda'i gilydd gyda phren lolipop
y cerbyd yn y canol.





© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com



© 2023 truewaykids.com

# Amser Addoli

Argymhellir caneuon addoli, heb eu cynhyrchu gan Trueway Kids. Fideos 'You Tube' i'w defnyddio at ddefnydd personol yn unig.



## Deborah Judge and Prophetess

https://youtu.be/cCvnrNljn0U

## God Is Greater

https://youtu.be/YET-Z2SIFcg

## I'm In The Lord's Army

https://youtu.be/9FqmiGwTqh4



# Amser Gweddi

Diolchwch i Dduw am faddau pobl.

Gofynnwch Iddo eich helpu i rannu eich ffydd gydag eraill ac i'w calonogi.

Diolchwch i Dduw am y bobl sy'n helpu ni.

# Wythnos Nesaf:

## Galwad Gideon

Os nad ydych wedi gwneud yn barod, cytunwch i dderbyn gwersi yn y dyfodol trwy e-bost.
truewaykids.com/subscribe/

© 2023 truewaykids.com